# GOFALU AM BARC CENEDLAETHOL ERYRI

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw warden Parc Cenedlaethol ac yn gwylio clipiau fideo i ddeall mwy am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cyrchu gwefan Parc Cenedlaethol Eryri ac yn defnyddio mapiau ar-lein i archwilio ble mae'r wardeniaid yn cyflawni eu tasgau dyddiol. Mae dysgwyr yn ystyried y gwaith a wneir gan wardeniaid y Parc Cenedlaethol, sut y gallai hyn fod yn berthnasol i'w hardal leol ac yn creu tudalen wybodaeth ddigidol am daith gerdded yn yr ardal leol. Maent yn ystyried pam yr ydym yn clirio llwybrau a sut y gwneir hyn, ac yn cynnal ymchwiliad i sut mae sathru yn effeithio ar nifer y planhigion llygad y dydd sydd ar gae chwaraeon.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dull o wneud nodiadau a chymryd ffotograffau ar gyfer creu tudalen wybodaeth ddigidol.
Dulliau samplu, e.e. cwadradau 25cm x 25cm wedi'u gwneud o bren neu fetel, syniadau ar sut i wneud eich cwadradau eich hun:
Gwneud eich cwadrat eich hun - Centre for Alternative Technology
Questions about Quadrats - Science & Plants for Schools (Saesneg yn unig)

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW TASGAU WARDEN PARC?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy am rolau a chyfrifoldebau warden mewn Parc Cenedlaethol.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw warden parc? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth maen nhw'n ei wneud, yn eich tyb chi? Pam?
- Pa dasgau y gallai fod yn rhaid iddynt eu cyflawni? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa gyfrifoldebau allai fod ganddyn nhw? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Pa gymwysterau sydd eu hangen ar warden parc, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 4

Dangoswch y clip fideo o Robat (tua 40 eiliad o hyd), sydd yn warden parc ym Mharc Cenedlaethol Eryri a gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am fod yn warden parc?
- Sut mae eich barn am wardeniaid parc wedi newid? Pam?
- Nawr, beth ydych chi'n meddwl mae warden parc yn ei wneud? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu gwefan Parc Cenedlaethol Eryri, darllen y wybodaeth am wardeniaid y parc a'r hyn maen nhw'n ei wneud yn Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut a phryd ydych chi'n meddwl mae wardeniaid yn 'cynghori'r cyhoedd ar ddefnydd diogel a chyfrifol o gefn gwlad'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n meddwl y gallai 'prosiect gwella mynediad' ei gynnwys? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Faint o wardeniaid parc sydd yna? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ei bod hi'n bwysig i'r wardeniaid ofalu am Lyn Tegid? Ydy hyn yn bwysig? Pam?

## Sgriniau 6-7

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y tasgau y mae wardeniaid y Parc Cenedlaethol yn eu gwneud ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ydych chi'n meddwl mae yna dirweddau a chynefinoedd yn lleol, sydd angen eu cynnal? Pam ei bod hi'n bwysig i ofalu am y rhain?
- Ble ydych chi'n meddwl mae yna faterion ynghylch mynediad cyhoeddus, yn lleol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae'r llwybrau cyhoeddus a'r hawliau tramwy, yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?

Yna, gofynnwch iddyn nhw gyrchu'r map a chanfod yr union leoliad y maen nhw'n meddwl bod wardeniaid y parc yn cyflawni'r tasgau hyn yn lleol ac i restru eu syniadau ar y sgrîn.

## Sgriniau 8-9

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n chwilio am dystiolaeth o ble mae'r tasgau hyn yn cael eu cyflawni yn yr ardal leol. Gofynnwch iddynt drafod pa fath o dystiolaeth y byddant yn chwilio amdani i ddangos bod wardeniaid y parc wedi bod yn cyflawni'r tasgau. Yna, ewch â'r dysgwyr allan i'r ardal leol i chwilio am dystiolaeth bod wardeniaid y parc wedi cyflawni eu tasgau. Anogwch nhw i wneud nodiadau a chymryd ffotograffau.

## Sgriniau 10-11

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth wnaethon nhw ei ddarganfod a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa lwybrau cyhoeddus wnaethoch chi eu darganfod? Ble'r oedden nhw?
- Pwy sy'n gyfrifol am y rhain? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth oedd eu cyflwr? Beth ellid ei wneud i wella mynediad at y llwybrau troed hyn?
- Pa dirweddau a chynefinoedd wnaethoch chi eu darganfod? Sut y gellid cynnal y rhain? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa lwybrau cyhoeddus eraill wnaethoch chi ddod o hyd iddynt? Ble maen nhw? Ar gyfer beth maen nhw'n cael eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth oedd y prif faterion mynediad y gwnaethoch chi eu darganfod? Sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i gyfuno eu canfyddiadau gyda chanfyddiadau'r dosbarth cyfan er mwyn cynhyrchu arddangosfa am waith wardeniaid parc yn yr ardal leol.

TASG 2

# GWEITHIO FEL WARDEN PARC

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried y gwaith a wneir gan wardeniaid y Parc Cenedlaethol, sut y gallai hyn fod yn berthnasol i'w hardal leol ac yn creu tudalen wybodaeth ddigidol am daith gerdded yn yr ardal leol.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo o Robat (ychydig dros funud o hyd), yn sôn am ei waith bob dydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Gwahoddwch nhw i edrych ar y map, dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn ac ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o geir sydd yn y prif faes parcio? Sut wnaethoch chi weithio allan nifer y ceir?
- Faint mae'n ei gostio i barcio yno drwy'r dydd?
- Pe byddai'r maes parcio'n llawn drwy'r dydd, faint o arian fyddai'r Parc Cenedlaethol yn ei wneud y diwrnod hwnnw? Faint o arian mewn blwyddyn? Sut wnaethoch chi weithio allan y rhain? Pam eu gweithio allan fel yna?
- Mae maes parcio gorlif yn y cae nesaf. Faint o geir y gallai hwn eu dal, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Robat yn arddangos gwybodaeth i ymwelwyr am dywydd y tridiau nesaf. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y gallai'r wybodaeth hon am y tywydd fod yn ddefnyddiol i ymwelwyr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble ydych chi'n meddwl y mae Robat yn dod o hyd i'r wybodaeth hon? Sut ydych chi'n gwybod?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am ragolygon y tywydd ar gyfer y man lle maen nhw'n byw ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r gwefannau hyn sy'n debygol o fod yn fwyaf dibynadwy? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar wefan y Swyddfa Dywydd (Met Office) ar gyfer eu hardal leol a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa symbolau sy'n cael eu dangos? Beth mae'r symbolau hyn yn ei olygu? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth fydd y tymheredd am y tridiau nesaf? Sut allwch chi ddweud?
- Beth yw'r siawns o law? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth fydd cyflymder y gwynt? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych eto ar fap Google o'r ardal, dod o hyd i'w hysgol a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- I ba gyfeiriad fyddai angen i chi deithio er mwyn cyrraedd maes parcio Llwybr Pilin Pwn (Tŷ Nant)? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa un fyddai'r daith fyrraf? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ffyrdd fyddai angen i chi deithio arnynt?
- Pa mor bell yw'r maes parcio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa mor hir y byddai'r daith yn ei gymryd i chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgriniau 7-8

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo nesaf o Robat (llai na munud o hyd), lle mae'n dilyn Llwybr Pilin Pwn i ddringo Cader Idris.

Rhowch wybod iddynt fod tudalen sy'n darparu gwybodaeth ynghylch dilyn Llwybr Pilin Pwn ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri. Yna, gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r dudalen hon Llwybr Pilin Pwn (Tŷ Nant) - Llwybrau a Theithiau Parc Cenedlaethol Eryri ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ddysgoch chi o'r dudalen we hon?
- Pa wybodaeth sydd ar gael? Sut gallai hyn fod yn ddefnyddiol i bobl?
- Mae'r map yn cynnwys y rhifau o 1 i 12. Beth mae pob un o'r rhifau hyn yn ei ddangos pan fyddwch chi'n clicio arnyn nhw?
- Sut mae'r ffotograffau a'r wybodaeth yn dangos peth o'r gwaith y mae wardeniaid yn ei wneud? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ddodrefn parc allech chi ei weld yn y ffotograffau?

## Sgriniau 9-10

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu tudalen wybodaeth ddigidol debyg am daith gerdded yn eu hardal leol. Gwahoddwch y grwpiau i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa bethau sy'n werth eu gweld yn yr ardal leol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae'r golygfeydd gorau? Beth allwch chi ei weld? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble byddai eich taith gerdded yn dechrau ac yn gorffen? Pam?
- Ble fyddech chi'n arddangos gwybodaeth am y tywydd ar gyfer y dyddiau nesaf?
- Sut fyddech chi'n dangos i bobl, y llwybr y mae'r daith yn ei ddilyn? Sut arall allech chi ei ddangos?
- A fyddech chi'n defnyddio llwybrau cyhoeddus? Pam?

Yna, ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am syniadau ynghylch ble y gallent greu taith gerdded, gan eu hannog i wneud nodiadau a chymryd ffotograffau.

## Sgrîn 11

Rhowch wybod i'r dysgwyr bod angen iddynt benderfynu ar eu taith gerdded ac y byddai defnyddio map digidol o'r ardal leol, e.e. map Google, yn syniad da. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sydd angen i chi ei wybod am y daith gerdded, er mwyn creu'r dudalen wybodaeth ddigidol?
- Pa mor hir yw'r daith gerdded? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i rywun gwblhau'r daith gerdded hon?
- Pa risgiau sydd ar y daith gerdded? Beth fyddwch chi'n ei ddweud am y rhain?
- Pa ffotograffau fyddwch chi'n eu cynnwys? Pam?

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i greu tudalen wybodaeth ddigidol ar gyfer eu taith gerdded ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut byddwch chi'n dangos y daith gerdded ar fap? Pam ei dangos fel hynny?
- Sut byddwch chi'n cynnwys ffotograffau a chyfarwyddiadau ar eich map?

TASG 3

# PAM EIN BOD NI'N CLIRIO LLWYBRAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried pam a sut rydyn ni'n clirio llwybrau ac yn cynnal ymchwiliad i sut mae sathru yn effeithio ar nifer y planhigion llygad y dydd ar gae chwarae.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo (tua 2 funud o hyd), dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrîn a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei weld yn yr olygfa o Farchynys o'r awyr? Sut ydych chi'n gwybod beth yw'r pethau hyn?
- Pa gliwiau sydd yn y fideo ynghylch ble yn union ar Farchynys y mae Robat?
- Ble ar y map mae'r llwybrau y mae Robat yn gweithio arnynt, yn eich tyb chi? Pam mai dyna yw eich tyb chi?
- Pa mor agos i'r afon a'r priffyrdd y mae Robat, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r clip fideo eto ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y llwybrau wedi gordyfu?
- Pa fathau o blanhigion wnaethoch chi eu hadnabod? Sut ydych chi'n gwybod beth ydyn nhw?
- Ble mae'r planhigion hyn yn tyfu fel arfer, yn eich meddwl chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa anifeiliaid fyddech chi'n disgwyl eu gweld yn byw ger y llwybrau hyn? Pam?
- Ym mha fis ydych chi'n meddwl y cafodd y fideo hwn ei ffilmio? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ei bod yn bwysig gosod cyfeirbwyntiau ar y llwybrau troed? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allai ddigwydd pe na byddai'r llwybrau wedi'u nodi'n glir?
- Sut gallai'r planhigion gael eu heffeithio pe na byddai pobl yn defnyddio'r llwybrau? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut byddai hyn yn effeithio ar gynefinoedd a chadwyni bwyd? Pam?

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl mae Robat yn ei olygu wrth hyn? Pam?
- Faint o gerddwyr allai ddefnyddio'r llwybr hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fydd yn digwydd i'r planhigion y mae'n eu torri gyda'r strimiwr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth yw manteision ac anfanteision strimio'r llwybr hwn?
- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n beth da iddo strimio'r llwybr hwn? Pam?

## Sgriniau 7-8

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am gynnal ymchwiliad i sut mae sathru yn effeithio ar nifer y planhigion llygad y dydd sydd ar gae chwarae ac y byddan nhw'n defnyddio cwadradau, sef sgwariau o bren neu fetel sy'n mesur 25cm wrth 25cm, i wneud hyn.

Yn gyntaf, gwahoddwch nhw i wneud cynllun o'r cae chwarae a phenderfynu ble maen nhw'n mynd i osod y cwadradau. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ydych chi'n meddwl y bydd y rhan fwyaf o blanhigion llygad y dydd i'w cael ar y cae? Pam?
- Beth yw'r gwahanol ardaloedd sydd ar gae chwarae? Pam maen nhw'n wahanol?
- Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod pob ardal wahanol o'r cae yn cael ei samplu?
- Ble byddwch chi'n gosod eich cwadradau? Pam?

- Sut byddwch chi'n cyfrif nifer y planhigion llygad y dydd ym mhob cwadrad?
- Mae'r cwadrad yn mesur 25cm wrth 25cm. Sut gallwch chi amcangyfrif faint o blanhigion llygad y dydd fyddai mewn cwadrad sy'n mesur 1m wrth 1m, yn yr un lle?

## Sgriniau 9-10

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd samplau ar y cae chwarae a chyfri nifer y planhigion llygad y dydd ym mhob ardal o'r cae chwarae. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod o'ch ymchwiliad?
- Ble oedd y mwyaf o blanhigion llygad y dydd?
- Ble oedd y lleiaf o blanhigion llygad y dydd?
- Pa gasgliadau allwch chi eu tynnu o'ch canfyddiadau?
- Wrth feddwl am Robat, pam ei fod eisiau i bobl ddefnyddio'r llwybrau?
- Beth allai ddigwydd pe na byddai pobl yn defnyddio'r llwybrau?
- Sut gallai hyn effeithio ar yr anifeiliaid sy'n byw yn yr ardal? Pam?